# DIC DYWYLL YN ODLI'R MAWR ERCHYLLTERAU

Gan HEFIN JONES

ARFERAI'R Bardd Gwagedd grwydro ar hyd a lled Cymru yn ystod hanner cyntaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ac er na wyddys i sicrwydd ym mha le y'i ganwyd, tueddir i briodoli man ei eni i ardal Llannerch-y-medd. Richard Williams oedd ei enw priodol, ond Dic Dywyll oedd ei enw poblogaidd.

Honna llawer mai ef oedd un o'r bobl mwyaf cyhoeddus ac adnabyddus yng Nghymru yn ei gyfnod, er mai â thref Merthyr Tudful y cysylltir ei enw gan amlaf erbyn heddiw. Cyfansoddi a chanu baledi wnâi Dic Dywyll, ac yr oedd yn gryn feistr arni, a gelwir ef gan rai beirniaid yn 'frenin y baledwyr'.

Mae'n debyg mai troi at ganu wnaeth Dic oherwydd ei anabledd, sef ei fod yn ddall, a bu cerddoriaeth yn fodd i lawer iawn grafu ynghyd ychydig geiniogau i fyw, er bod tystiolaeth ar gael fod Dic wedi ennill cymaint â £8 mewn un noson broffidiol ym Merthyr.

Gan fod yr angen am gynhaliaeth gymaint, ni allai'r baledwyr proffesiynol gyfyngu eu hunain i ganu ar un testun arbennig, a gwelir baledwyr fel Ywain Meirion, Dafydd Jones a Dic ei hun yn canu ar nifer o wahanol bynciau. Wedi dweud hynny, efallai mai fel canwr baledi serch y cofir am Dic gan y rhan fwyaf o bobl, am y rheswm syml fod cymaint yn gyfarwydd â'r gân 'Lliw Gwyn Rhosyn yr Haf'.

Mae'n amlwg fod Dic wrth ei fodd yn cyfansoddi baledi digri, boed y rheiny'n ymwneud â serch ai peidio. Weithiau, byddai'r caneuon yn llawn rhegfeydd ac yn ffluwch o ddywediadau coch a chyffyrddiadau masweddus, ond mae'n rhaid i ni dderbyn y byddai'r gynulleidfa ar ben eu digon yn clywed y fath ganu, neu ni fyddai Dic wedi trafferthu eu cyfansoddi yn y lle cyntaf.

Ar y llaw arall, rhaid derbyn yn yr un modd fod baledi crefyddol Dic Dywyll yn cael derbyniad gwresog hefyd. Pregethai'r baledwyr o blaid y ddeddf foesol a rhybuddid y gymdeithas gyfan i fyw'n rhinweddol ac i beidio â thorri deddfau Duw.

Dilynodd Dic hen draddodiadau Beirdd yr Uchelwyr hefyd, yn y ffaith iddo gyfansoddi baledi mawl, yn cynnwys un i'r brenin Gwilym y 4ydd, ynghyd â nifer o faledi am farwolaethau o fewn y gymdeithas.

Ceir crybwyll nifer o bynciau llosg y dydd yn ei ganeuon, ac er bod Dic yn dangos ychydig mwy o asgwrn cefn na llawer o'i gyfoeswyr, canu yn erbyn Merched Beca a chondemnio terfysg Merthyr a wnaeth, er ei fod o blaid diwygio'r senedd. Troedio'r ffordd ganol, diogel, geidwadol a wnâi, gydag ychydig iawn o enghreifftiau tebyg i'r isod:

*Doedd yr amser gynt fawr son am drethi,*
*Nawr mae'r dydd dan dreth yng Nghymru:*
*A dŵr yr afon wyf fi'n coelio*
*Peth rhyfedd iawn na bai dreth am biso.*

* * * *

OND EFALLAI mai'r baledi a gyfansoddodd Dic am lofruddiaethau, hunan-laddiadau a damweiniau yw'r rhai mwyaf cyffrous o'i eiddo. 'Roedd y math hwn o ganu yn boblogaidd gan y baledwyr i gyd, a cheir dros ddeg ar hugain o faledi yn y dosbarth hwn gan Dic.

Mae'r rhan fwyaf o faledi yn cadw at yr un patrwm sefydlog, sef dechrau â gwahoddiad i wrando, yna ceir amlinelliad bras o'r stori, cyn eir ati i roi cig ar yr esgyrn sychion. Nid oes modd i ni heddiw ddirnad pa mor boblogaidd y gallai baled arbennig am lofruddiaeth fod, ond mae'n debyg na fu un o faledi Dic mor boblogaidd â chân Stephen Jones, Llanfaeryw, am lofruddiaeth Hannah Dafis ar Fynydd Pencarreg, er enghraifft.

Ond wedi dweud hynny, ceir o leiaf bum argraffiad o faled Dic 'yn rhoddi hanes Benjamin Walters o Berin Hall, Bradford, Swydd Efrog, yr hwn a laddodd ei chwaer a'i phlentyn dau fis oed, a'i dad hefyd, a bar haearn ac a amcanodd fwrddro ei fam yn yr un modd ac wedi hynny a ymgrogodd Chwefror 1833'.

Apeliai'r baledi at y bobl gyffredin am mai dyna'r ffordd y deuent i wybod am ddigwyddiadau yng Nghymru, yn Lloegr ac ar y cyfandir. Yn aml, byddai'r porthmyn yn clywed am ryw stori arbennig, ac yna byddai'r baledwyr yn mynd â'r stori ar gân o gwmpas y wlad.

Ceir hanes am Abel Jones, wedi iddo glywed am arestio troseddwr, yn cyfansoddi baled am y digwyddiad, ond ar ei ffordd i'r dref lle'i carcharwyd, clywodd ei fod wedi ei ryddhau, ac er mawr siom i'r baledwr, bu'n rhaid iddo anghofio am ei gân.

* * * *

'ROEDD achlysur o farnu a dienyddio troseddwr yn boblogaidd ofnadwy yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg, a byddai'r gynulleidfa'n disgwyl clywed baledwr yn traddodi am y digwyddiad. Gan mai trwy ganu a gwerthu baledi yn unig y byddai'r rhan fwyaf o faledwyr yn byw, achubent ar unrhyw gyfle i gyfarch torf fawr.

Dyma bennill nodweddiadol o faled sy'n rhoi hanes dienyddio mam a mab am geisio lladrata o dŷ rhyw Edward Wilding, masnachwr enwog o ardal Manceinion, ac ynddo ceir holl emosiwn y barnwr yn rhoi'r ddedfryd eithaf, ac ymateb y diffynyddion wrth glywed eu tynged:

*Y barnwyr oedd yn wylo wrth roddi'r*
*ddedfryd ddwys,*
*Waith colli mam a phlentyn oedd peth o*
*ddirfawr bwys;*
*A'r mab yn wylo dagrau, gan ddweud ag*
*uchel gri,*
*O mam, 'rwy'n colli fy einioes yn wir o'ch*
*achos chwi!*

Ond mae'n amlwg o ddarllen gwaith Dic fod llawer o'i faledi wedi eu cyfansoddi ar ôl y weithred o grogi, a cheir disgrifiadau manwl a dramatig o'r cyfnod cyn i'r rhaff gau am wddf y cyhuddiedig. Er enghraifft:

*Ac yntau'n uchel waeddai, 'Duw maddau*
*'meiau i mi';*
*A phawb oedd wrth ei weled, a'u llygaid*
*yno'n lli.*
*Yr eilfed dydd o Ebrill, fe'i cyrchwyd yn*
*ddi-gudd,*
*O dan y pren er prudded, i ddiodde'r profiad*
*prudd.*

*Bu farw'n edifeiriol, yn olwg dynolryw,*
*Gan lefain am drugaredd y gweddaidd Iesu*
*gwiw;*
*Ei gorffyn gwael a gladdwyd, fe'i rhoddwyd*
*dan y rhaw,*
*Bydd beddau i ninnau'n barod ryw*
*ddiwrnod mawr a ddaw.*

Yn ddiddorol, ceir un baled gan Dic yn rhoi hanes am ferch o Swydd Caint a grogwyd ar gam, ac ar yr union funud y bu farw, gwaeddodd y llofrudd ei gyffesiad o'r gynulleidfa, ond yn rhy hwyr i achub y ferch, wrth gwrs.

* * * *

MAE'N amlwg fod Cymry cyffredin y cyfnod wrth eu bodd yn clywed am fanylion lleiaf y troseddau, ac yn aml mae disgrifiadau Dic yn ffiaidd a chiaidd. Sonnir am ben y llofruddiedig wedi hollti'n ddeuddarn, a'r ymennydd yn ffrydio'n goch a gwyn ar hyd y palmant.

Dyma bennill o faled, yn cyfleu ffeithiau'r postmortem a gynhaliwyd ar gorff John Llewelyn, brodor o Aberdâr, a yfodd gwrw a oedd yn cynnwys y cyffur 'laudanum':

*Ei ben yr ail ddydd a agorwyd syndod syn,*
*A'i gorff i gyd agorwyd fe'i chwiliwyd*
*coeliwch hyn,*
*Olrheiniwyd ei 'mysgaroedd a'i 'mennydd yr*
*un modd,*
*Er cael y peth yn hysbys rhyw dro arswydus*
*oedd.*

Nid oedd y baledwyr yn unigryw yn hyn o beth, a gwelir yr un math o ddisgrifio cignoeth dro ar ôl tro yn y cylchgronau enwadol Cymraeg.

Un o'r prif themâu a welir ym maledi Dic Dywyll, yw'r sôn cyson am yr uned deuluol, ac yn enwedig, canolbwyntia ar ddisgrifio'r amgylchiadau sy'n effeithio ar yr uned honno.

'Does dim prawf pendant fod Dic ei hun wedi bod yn briod erioed, er y ceir ychydig o gyfeiriadau sy'n awgrymu hynny, ond mae'n amlwg ei fod yn hoffi sôn am y golled a ddeuai i deulu ar farwolaeth aelod o'r uned. Daw'r arddull yma i'r amlwg ym maledi Dic am longddrylliadau a damweiniau diwydiannol yn ogystal â'i faledi am lofruddiaethau.

Dyma enghraifft o'r canu yma, ac yn y dyfyniad, adlewyrchir y dwyster a deimlai'r teulu yn eu colled:

*Mi ddych'myga mod i'n clywed,*
*Ei geraint annwyl ag un tyniad,*
*I gyd yn llefain mewn hyll ofid,*
*Wrth gofio'i ddoniol fywiol fywyd.*

*Dychymyga eu clywed oll yn llefain,*
*Yn dweud yn uchel ac yn ochain,*
*Ow! Ow! na ddaethai ryw beth iddo,*
*I'w ddwyn o'r byd yn lle'i lofruddio.*

* * * *

UN NODWEDD amlwg arall yn y caneuon yw'r elfen foesol a rhybuddiol a geir ynddynt. Credai'r oes, dan ddylanwad gynyddol yr anghydffurfwyr, fod Duw yn rheoli'r digwyddiadau yn eu bywydau beunyddiol. Felly, credent fod cadw'n ddeddfol at y Deg Gorchymyn yn mynd i olygu taith llai helbulus i'r nefoedd.

Weithiau, teimlir mai confensiwn yn unig sy'n gyfrifol am y moesoli, er bod baledi Ywain Meirion yn tueddu i fod yn llai ffuantus a theimlir eu bod yn dod o'r galon. 'Roedd gorffen baled gyda 'Amen' yn gyffredin iawn ym mysg y baledwyr, ac yn aml 'roedd y pennill olaf yn ei grynswth yn darllen fel gweddi.

Dyma bennill olaf nodweddiadol, o'r faled sy'n sôn am ddienyddiad gŵr o'r enw Samuel Thorley yng Nghaerlleon:

*Chwi ddynion manwl mwynion, o galon*
*dewch i gyd*
*I ffoi o lwybrau Satan a'i aflan lydan lid,*
*A laddo ddyn a leddir, mae yn eglur is y nen,*
*Duw annwyl a'm gwaredo, dymuno*
*mwy Amen.*

Mae'n amlwg mai oherwydd diddordeb y gymdeithas mewn marwolaeth a llofruddiaethau yn enwedig, y cyfansoddodd Dic Dywyll gymaint o faledi ar y pwnc. Yn ogystal â throsglwyddo newyddion y cyfnod i'r bobl, yr oedd y caneuon yn hynod gyffrous, a gellir dychmygu'r gynulleidfa'n gwrando'n astud ar y canwr.